MacIntyre
Providing support...your way

Homes Not Hospitals







# Cartrefi nid Ysbytai

## Cynnig MacIntyre i bobl sy'n symud o unedau diogelwch ac unedau cleifion mewnol

# Cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol i Oedolion MacIntyre

Bydd pobl sy'n tynnu ar gymorth MacIntyre yn byw bywydau gogoneddus o gyffredin, yn byw'r bywydau y dymunant eu byw, a hynny gan ddefnyddio eu doniau, eu sgiliau a'u brwdfrydedd i gyfrannu a chysylltu â'r bobl yn eu cymdogaethau lleol.

Ar hyn o bryd, caiff y cymorth a ddarparwn ar draws ein cynnig Cartrefi nid Ysbytai ei ystyried yn Dda gan y Comisiwn Ansawdd Gofal, a'n nod yw bod yn Rhagorol. Mae gennym berthnasoedd sefydledig da â darparwyr tai sy'n ein galluogi i gynnig, ar y cyd, ystod o gymorth mewn perthynas â lletyau a thenantiaethau i bobl yn eu heiddo eu hunain ledled y wlad.

Rydym yn treulio amser yn dod i wybod am uchelgeisiau a dyheadau pobl ac yn sicrhau bod gan bawb ddewis a rheolaeth dros eu bywydau. Rydym wedi datblygu arbenigedd penodol mewn cefnogi pobl sy'n gadael lleoliadau arhosiad hir a'r sawl sy'n wynebu risg o droseddu neu aildroseddu. At hynny, mae ein dull tosturiol sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd, ynghyd ag ymyriadau therapiwtig rhagweithiol ac amserol, yn ein galluogi i atal derbyniadau ac ailderbyniadau.

Yn y ddogfen hon, rydym wedi rhannu crynodeb o straeon tri unigolyn sydd bellach yn byw bywydau gogoneddus o gyffredin. Mae eu straeon llawn ar gael ar gais.

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn. A ninnau'n elusen gofal cymdeithasol nid-er-elw, rydym yn buddsoddi unrhyw wargedion gweithredu a chronfeydd elusennol i'r cymunedau lle rydym yn gweithio, gan sicrhau eu bod yn lleoedd cynhwysol a chroesawgar i'r bobl sy'n tynnu ar ofal cymdeithasol fyw, gweithio a dysgu ynddynt. Nid yn unig yr ydym yn sefydliad sy'n trawsnewid bywydau, ond rydym yn trawsnewid cymunedau hefyd.

Laura Selby-Dalton
Cyfarwyddwr, Gofal Cymdeithasol i Oedolion MacIntyre



# Gwybodaeth am MacIntyre

Sefydlwyd MacIntyre yn 1966 gan rieni plentyn ag anabledd dysgu. Heddiw, mae MacIntyre yn darparu dysgu, cymorth a gofal i fwy na 1,400 o blant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu a/neu bobl awtistig.

### Ein Gweledigaeth

Dylai pob unigolyn ag anabledd dysgu fyw bywyd sy'n gwneud synnwyr iddo. Rydym yn falch o'n gorffennol ac yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

### Ein Cenhadaeth

Byddwn yn cefnogi ymdeimlad o lesiant trwy ddathlu cyfraniadau, talentau a doniau unigryw pob unigolyn. Byddwn yn sicrhau ansawdd ein perthnasoedd a bod cyfleoedd gwirioneddol i gysylltu ag eraill yn cael eu hyrwyddo.

### Ein Diben


Bydd pobl sy'n tynnu ar gymorth MacIntyre yn byw bywydau gogoneddus o gyffredin, yn byw'r bywydau y dymunant eu byw, a hynny gan ddefnyddio eu doniau, eu sgiliau a'u brwdfrydedd i gyfrannu a chysylltu â'r bobl yn eu cymdogaethau lleol. Mae MacIntyre yn buddsoddi mewn cymdogaethau ac yn eu helpu i fod yn ofodau cynhwysol a chroesawgar i bawb.

### Ein Gwerthoedd

Ceir disgrifiad o'n gwerthoedd yn DNA MacIntyre sy'n cael ei siapio gan gred weledigaethol ein sylfaenydd ynghylch "potensial dysgu pobl ag anableddau dysgu, eu gwerthoedd fel unigolion, eu hawl i gydraddoldeb a'u pwysigrwydd i gymdeithas."

## MacIntyre at a glance

- 44 o blant
- 144 o bobl ifanc
- 1,113 o oedolion
- 2,140 aelod o staff
- £69m miliwn mewn trosiant



# Dull Gweithredu MacIntyre

Bydd pobl sy'n tynnu ar gymorth MacIntyre yn byw bywydau gogoneddus o gyffredin, yn byw'r bywydau y dymunant eu byw, a hynny gan ddefnyddio eu doniau, eu sgiliau a'u brwdfrydedd i gyfrannu a chysylltu â'r bobl yn eu cymdogaethau lleol. Rydym yn falch o gael gweithio gydag unigolion a sefydliadau â meddylfryd tebyg.




Mae MacIntyre wedi bod ynghlwm wrth fudiad Social Care Future ers iddo gael ei sefydlu, ac mae'n parhau i fod yn gynghreiriad gweithredol. Caiff ein sylfaen werthoedd (ein DNA) a rennir a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol eu hamlygu gan weledigaeth Social Care:

> "Rydym am fyw yn y lle rydym yn ei alw'n gartref, gyda'r bobl a'r pethau a garwn, mewn cymunedau lle rydym yn gofalu am ein gilydd, gan wneud y pethau sy'n bwysig i ni."
>
> Social Care Future

A ninnau'n gynghreiriaid balch i fudiad Social Care Future, rydym yn croesawu barn pobl â phrofiad bywyd, ac yn sicrhau bod ein hymarfer a'n gwerthoedd yn esblygu'n barhaus. Rydym wedi cofrestru ar gyfer y cysyniad a grëwyd gan Tricia Nicoll o sefydliad Gloriously Ordinary Lives. Rydym yn gyfranogwyr balch o raglen iaith ac ymarfer gyntaf Gloriously Ordinary.

# Dull Gweithredu MacIntyre



## Mae MacIntyre yn 'Fwy na Darparwr'

Mae MacIntyre yn rhan o gydweithrediad â phum sefydliad nid-er-elw arall sy'n galw am newid i ofal cymdeithasol. Cânt eu hadnabod ar y cyd fel 'Mwy na Darparwr', ac mae'r grŵp yn gweithio i hyrwyddo a chynnig datrysiadau ymarferol ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol.


Rydym yn eglur bod diwygiad yn ofynnol ac yn credu bod gennym gyfraniad i'w wneud wrth ail-ddychmygu a chynllunio datrysiadau gofal cymdeithasol newydd. Mae gennym hanes da o weithio ochr yn ochr â phobl anabl, Cynghorau ac eraill. Mae ein dull Pawb Ymhobman a'r hyn a ddysgwyd gennym o'n prosiect Cymunedau Gwych yn Warrington yn dangos:

- Bod darparwyr yn gallu chwarae rôl wrth siapio cymunedau/cymdogaethau lleol.
- Bod gan bobl anabl dalentau a sgiliau sy'n werthfawr i wneuthuriad cymdogaethau cynhwysol.
- Bod yn rhaid i fuddsoddiad mewn cymdogaethau a chymunedau fod yn rhan o unrhyw gynllun gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol.
- Buddsoddi i arbed - mae dull o'r fath yn atal pobl rhag cael mynediad at ofal cymdeithasol ac mae ganddo'r potensial i leihau nifer yr oriau i'r sawl sy'n gymwys.

Rydym wedi ymuno â phum sefydliad darparu arall sy'n rhannu ein gwerthoedd, yn cyd-fynd â gweledigaeth Social Care Future ac yn meddu ar hanes profedig o ddarparu datrysiadau arloesol i ofal cymdeithasol. A ninnau'n sefydliadau trydydd sector nid-er-elw, rydym, yn y bôn, yn credu ein bod mewn lle da i helpu llunwyr polisïau i ddatblygu syniadau newydd a datrysiadau uchelgeisiol ac ymarferol i oedolion anabl sy'n tynnu ar ofal cymdeithasol.

More
Than a Provider

# Cartrefi nid Ysbytai gyda MacIntyre



Mae MacIntyre ar flaen y gad o ran galluogi pobl sydd wedi'u lleoli'n amhriodol mewn ysbytai arhosiad hir, cyfleusterau cleifion mewnol, ac Unedau Asesu a Thrin i symud i'w heiddo eu hunain gyda phecyn cymorth therapiwtig a arweinir gan yr unigolyn.

Mae'r eiddo mewn cymdogaethau cyfarwydd lle gall pobl gysylltu ag eraill nad ydynt yn rhan o'u rhwydwaith cymorth taledig ac, yn bwysicaf oll, wneud y pethau y maent wrth eu boddau'n eu gwneud!

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig cymorth i fwy na 60 o bobl ag anableddau dysgu. Mae'r rhain yn bobl sydd wedi cael eu disgrifio'n hanesyddol o amlygu "ymddygiadau" sylweddol "sy'n peri pryder", gan gynnwys y rheiny sydd wedi troseddu neu'n wynebu risg o droseddu, neu'r rheiny sy'n symud o leoliadau diogel.

Rydym wedi datblygu'r dull hwn yn arbennig yn ardal Manceinion Fwyaf, ac rydym 'nawr yn gallu ei gynnig i rannau eraill o Gymru a Lloegr.

## Dull gweithredu arbenigol

Mae'r modd yr ydym yn mynd ati i gefnogi pobl trwy'r broses bontio o'r ysbyty i'r gymuned wedi'i sefydlu ar sylfaen werthoedd gref (ein DNA). Rydym yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'r canlyniad, ac ystyrir mai ein hymarfer yw'r un gorau sydd hefyd yn cyd-fynd â pholisi presennol y llywodraeth a'r sector. Mae uniondeb yn bwysig i ni: credwn fod ystyr yn cael ei roi i'n gwerthoedd trwy ein gweithredoedd, ac rydym yn myfyrio'n fanwl ar y gweithredoedd hyn ac yn dysgu ohonynt bob dydd. Rydym yn sicrhau bod pawb sy'n tynnu ar ein cymorth yn profi buddion ein meysydd arbenigedd a therapiwtig cynyddol.

Mae ein hadnoddau a'n hymarferwyr cymorth arbenigol yn ein galluogi i gynnig cymorth ochr yn ochr i bobl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn ogystal â datblygu llwybrau dysgu a darparu goruchwyliaeth ymarfer. Mae'r dull hwn yn sicrhau ein bod yn gallu cynnig pecyn cymorth tosturiol a therapiwtig cofleidiol i bob unigolyn, pecyn y gellir ei addasu yn unol â'i anghenion. Y tro hwn, mae arbenigedd technegol a chritigol ar gael bob amser, ac mae'n creu diwylliant o uchelgais, gwydnwch a myfyrdod.

Rydym yn treulio amser yn meithrin perthnasoedd ar lefel leol ac ehangach, a hynny i ofalu bod gan y bobl sy'n tynnu ar ein cymorth fynediad at y gwasanaethau iechyd a llesiant sy'n gwneud cyfraniad allweddol i sicrhau canlyniadau gwych i bawb.

Ledled Cymru a Lloegr, mae dros 68 o Gynghorau a Byrddau Gofal Integredig yn comisiynu MacIntyre i gynnig cymorth a gofal i dros 1,113 o oedolion.

# Ein Dull Gweithredu Therapiwtig



## Cadw Pobl yn Ddiogel

Mae sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel ac mewn rheolaeth yn elfen graidd o DNA MacIntyre.


Mae cadw pobl yn ddiogel o fewn cyd-destun ein dull therapiwtig yn hollbwysig. Mae'r ymrwymiad hwn i ddiogelwch yn ymestyn i'r holl unigolion dan sylw: yr unigolyn sy'n tynnu ar ein gofal, ei rwydwaith cymorth, a'r gymuned ehangach. Gall anwybyddu neu gamdrafod sefyllfaoedd a all achosi niwed arwain at risgiau sylweddol, gan gynnwys anafiadau corfforol, trallod emosiynol, allgáu cymdeithasol, ac ansawdd bywyd gwaeth i bawb. Felly, nid yw ffocws ar ddiogelwch yn ymwneud â rheoli argyfwng yn unig, mae'n ymwneud â hawl ddynol sylfaenol i fyw'n rhydd o niwed a chydag urddas.

Datblygir cynlluniau Cadw'n Ddiogel ar sail yr angen tystiolaethol a asesir gan ein tîm o arbenigwyr. Rydym yn cydnabod y gall ymyriad corfforol fod yn ofynnol ar brydiau er mwyn cadw pobl yn ddiogel. Mae ein prosesau a'n hyfforddiant mewnol yn ardystiedig ac fe'u hadolygir yn flynyddol gan BILD, ac Ymddiriedolaeth Ann Craft, ac maent yn bodloni'r anghenion a nodir yn Safonau'r Rhwydwaith Lleihau Arferion Cyfyngol.



# Ein Dull Gweithredu Therapiwtig

## Gweithio mewn Partneriaeth



### Teuluoedd yn Bartneriaid

Mae ein gwaith gyda theuluoedd yn cynorthwyo pobl i feithrin perthnasoedd da â'u teulu pan fyddant am wneud hynny. Mae hefyd yn helpu rheolwyr a staff i greu cysylltiadau adeiladol ag aelodau o'r teulu trwy feithrin ymddiriedaeth, gosod disgwyliadau a chadw at ymrwymiadau. Mae'r adnoddau sydd ar gael i deuluoedd yn cynnwys Siarter y Teulu, Pecyn y Teulu, a'n pecyn digidol neu raglen ar-lein, 'Paratoi i Gefnogi'.

> Rydym wastad wedi teimlo'n rhan o deulu MacIntyre ym Manceinion Fwyaf ac yn teimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi a'n parchu. Mae MacIntyre yn gweld gwerth profiad a hanes teuluol, ac rydym bob tro'n gwneud penderfyniadau er budd ein mab gyda'n gilydd. – Rhiant

### Partneriaid Tai

Mae partneriaid tai presennol yn cynnwys Empower, RwP, Golden Lane, Partners Foundation ac MSV. Rydym yn cydweithio â darparwyr cofrestredig i gael gafael ar eiddo a'u rheoli i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar gyfer y bobl sy'n tynnu ar ein cymorth.

Mae gan MacIntyre brofiad helaeth o weithio mewn Tîm Amlddisgyblaethol, ac mae'n cydnabod gwerth gweithio mewn partneriaeth a buddion allweddol hynny: ymagwedd gyfannol i ofal a chymorth, canlyniadau gwell, cyfrifoldebau a rennir, cyfathrebu rhagorol, datrys problemau'n gyflymach, datblygiad proffesiynol, defnydd gwell o adnoddau, a ffocws sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Yn ardal Manceinion Fwyaf, rydym yn gweithio gyda'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Gofal Integredigs canlynol ar hyn o bryd:

- Cyngor Bury
- Cyngor Dinas Manceinion
- Bwrdd Gofal Integredig GIG Manceinion Fwyaf
- Cyngor Rochdale
- Cyngor Dinas Salford
- Cyngor Stockport
- Cyngor Trafford
- Cyngor Bwrdeistref Wigan

> MacIntyre's operational management approach is consistently engaged with the advice of clinicians, especially in terms of positive behavioural support; person-centred and attentive to people's needs and preferences; and realistically attuned to the expectations of health and social care commissioners.
>
> Fiona Charnock
> Adult Social Care Transformation

# Ein Dull Gweithredu Therapiwtig

## Cymorth Tosturi yn Gyntaf

Mae llunio'r cymorth addas yn ganolog i'r gwaith o atal derbyniadau neu gefnogi pobl i symud ymlaen o leoliadau cleifion mewnol. Mae ein Fframwaith Tosturi yn Gyntaf yn ein galluogi i gadw pobl yn ddiogel wrth ganolbwyntio ar gynorthwyo'r bobl sy'n tynnu ar ein cymorth, ynghyd â'u timau, i ddatblygu'r sgiliau a'r amgylcheddau lle gallant ffynnu.




Mae Tosturi yn Gyntaf yn fframwaith o elfennau cymorth, gan gynnwys Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol, sy'n dod ynghyd ac yn ....

- Cefnogi eraill i ddeall anghenion unigolion yn well: gan ddefnyddio egwyddorion dadansoddiad ymddygiadol cymhwysol, rydym yn gweithio i ddeall pam y mae ymddygiad sy'n peri pryder yn digwydd a sut y gallwn newid ein hymddygiad a'n hamgylchedd ein hun i helpu i leihau hyn
- Cefnogi pobl i ddysgu camau gweithredu ac ymatebion amgen i'w helpu i lywio'r byd o'u cwmpas ac i ffynnu a thyfu ynddo
- Cadw pawb yn ddiogel pan fydd ymddygiad sy'n peri pryder yn digwydd gan ddefnyddio'r dull lleiaf cyfyngol
- Sicrhau bod ein camau gweithredu'n cael eu hysgogi gan ddata ac yn rhydd o dybiaethau

Mae dewis rhoi Tosturi yn Gyntaf yn golygu gofyn un cwestiwn pwysig: "Sut y bydd fy nghamau gweithredu a'm penderfyniadau yn teimlo i'r person sy'n tynnu arnom am gymorth?"

Wrth ymgysylltu â Chefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol, rydym yn sicrhau bod ein technegau a'n camau gweithredu yn cael eu harwain gan hawliau dynol, mai'r rhain yw'r lleiaf cyfyngol, a'u bod wedi'u mesur yn unol â'n hymrwymiad Tosturi yn Gyntaf i atal niwed neu drawma.

Caiff Cymorth Ymddygiadol Therapiwtig ei ystyried yn elfen bwysig o fewn ein dull therapiwtig. Yn wahanol i'r dulliau sydd o bosibl yn ceisio ffrwyno ymddygiadau digroeso yn unig, mae Cymorth Ymddygiadol Therapiwtig yn archwilio pam y mae'r ymddygiadau hyn yn digwydd, gan gynnwys yr ymddygiadau mwyaf niweidiol. Mae'n cydnabod bod ymddygiadau yn fodd o gyfathrebu gan amlaf, gan dynnu sylw at anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu, trallod emosiynol sylfaenol, a diffyg sgiliau ymdopi. Wrth adnabod y prif achosion trwy gynnal asesiadau gweithredol, mae Cymorth Ymddygiadol Therapiwtig yn caniatáu ymyriadau wedi'u targedu yn hytrach na datrysiadau arwynebol.

Yn sefydliad MacIntyre, mae ein dull haenedig yn amlygu ein Cymorth Ymddygiadol Therapiwtig sy'n cryfhau, yn atal ac yn cefnogi newid parhaus, a hynny ar ôl i'r dulliau a'r cymhorthion therapiwtig lwyddo.

## Cymorth Fforensig

Pan ddaw pobl at MacIntyre â hanes o ymddygiad troseddol a risgiau fforensig, rydym yn eu cefnogi nhw ac eraill i gadw'n ddiogel rhag ail-droseddu trwy weithio'n agos gyda'n hymgynghorydd arbenigol allanol ochr yn ochr â'n timau arbenigol. Rydym yn cynnal y fframweithiau cyfreithiol a osodir gan y llysoedd, a hefyd yn cydnabod bod ein Cymorth Ymddygiadol Therapiwtig arbenigol a'n dull haenedig yn sicrhau bod pobl yn profi bywyd da, a hefyd yn cefnogi dysgu a all helpu pobl i wneud penderfyniadau mwy diogel yn y dyfodol.

> Cael pethau'n iawn o'r dechrau'n deg yw'r peth pwysicaf y gallwn ei wneud i sicrhau bod ein dull yn gweithio
>
> Sarah Kilby, Rheolwr Ymddygiad Cynhwysol

# Pawb Ymhobman

Cafodd Cynllun Mawr MacIntyre ei gynhyrchu a'i ysgrifennu ar y cyd â'r bobl sy'n tynnu ar ein cymorth, eu teuluoedd a'u timau staff. Mae'r Cynllun Mawr yn gofyn cwestiwn pwysig: "Sut y gallwn gwrdd â phobl yn agos at le yr ydym yn byw i wneud pethau'n well i bawb?"

Ein hateb i'r cwestiwn hwn yw Pawb Ymhobman. Rydym yn gwybod bod yna nifer o bobl MacIntyre sy'n rhan o'u cymdogaethau lleol, ac rydym yn gwybod bod pethau da'n digwydd pan fyddwn yn cysylltu â phobl eraill o'n cwmpas.

Mae Pawb Ymhobman yn ymwneud â sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn rhan fwy bwriadol o'n bywydau o ddydd i ddydd, adnabod a chael ein hadnabod yn lleol, ein herio ein hun i wneud yn well, a rhannu straeon i ysbrydoli ein gilydd.

"Sut y Gallwn Helpu?" Mae un o negeseuon allweddol Pawb Ymhobman yn ymwneud ag ystyried ein hun, ein sefydliad a'r bobl sy'n tynnu ar ein cymorth yn gyfranogwyr i'n cymdogaethau lleol. Rydym yn gwybod ein bod yn teimlo'n rhan o rywbeth pan fyddwn yn helpu eraill, yn cyfranogi, ac yn cymryd rhan, a'n bod yn teimlo bod i ni werth.

Felly, sut y gallwn wneud Pawb Ymhobman yn realiti? Rydym yn gofyn i'n staff a'r bobl sy'n tynnu ar gymorth MacIntyre i ddarganfod yr hyn sy'n digwydd yn lleol; i nodi un peth sydd o ddiddordeb iddynt, ac yna i fynd ati i ddarganfod mwy.



# Pawb Ymhobman - enghreifftiau




Ym Manceinion Fwyaf, mae Stephen wedi bod yn gwirfoddoli yn ei eglwys leol trwy helpu gyda brecwastau cymunedol, ymweld â'r ganolfan arddio leol i gasglu bwyd, a dod yn wyneb lleol poblogaidd a chyfarwydd.

"Rwy'n hoffi helpu pobl, mae'n gwneud i mi deimlo'n dda. Rwyf hefyd yn hoffi siarad â phobl a dod i'w hadnabod."
Stanley



Mae David yn rhan o grŵp drama amatur a grŵp rygbi lleol.

Mae David hefyd yn cyd-gyflwyno yn sesiynau hyfforddiant MacIntyre ac i gynulleidfaoedd allanol.



Ganwyd Côr MacIntyre Manchester Melodies o awydd ar y cyd i ddod â phobl at ei gilydd trwy weithgaredd cynhwysol y gall pawb ei fwynhau. Gan gychwyn adeg y Nadolig, penderfynodd y côr ddechrau gyda chlasuron yr ŵyl. Erbyn hyn mae'r aelodau'n cwrdd yn rheolaidd, ac mae'r côr hefyd yn bwriadu cynnig cyngherddau am ddim i gartrefi nyrsio lleol, gan wahodd preswylwyr i ymuno yn yr hwyl.

"Dyma amser gorau'r wythnos ac mae hyd yn oed yn well na caraoce!"
Andrew

# Gwerth am Arian



Trwy ein dull gweithredu, gallwn arddangos buddion gwirioneddol i'r unigolyn, ei deulu a'r awdurdod comisiynu.

Yn y ddogfen hon, rydym wedi rhannu tair enghraifft o bobl sydd wedi symud i MacIntyre o unedau arhosiad hir ac sydd bellach:

- Yn mwynhau bywyd yn eu cartref newydd, yn gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt
- Wedi cysylltu, neu ailgysylltu, â'u teuluoedd
- Yn gysylltiedig â'u cymuned leol

> "Mae pob un ohonom am fyw yn y lle rydym yn ei alw'n gartref, gyda'r bobl a'r pethau yr ydym yn eu caru, mewn cymunedau lle rydym yn gofalu am ein gilydd, gan wneud y pethau sy'n bwysig i ni." Social Care Future

Yn achos pob unigolyn sy'n tynnu ar gymorth MacIntyre, rydym hefyd yn gallu arddangos arbedion sylweddol o ran costau.

Mae byw yn y gymuned yn hytrach na chanolfannau asesu a thrin yn dod â buddion sylweddol o ran arbed costau, nid yn unig yn ariannol ond hefyd o ran ansawdd bywyd.

Mae byw â chymorth yn costio llai am fod modd teilwra'r cymorth a'i leihau'n raddol wrth ddatblygu mwy o annibyniaeth.

Mae defnyddio arian yn ddoeth mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol bwysig am fod adnoddau'n gyfyngedig, ond mae'r anghenion yn cynyddu. Rhaid i bob punt a warir wneud y gwahaniaeth mwyaf posibl i fywydau pobl.

Mae pobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain nid yn unig yn arbed arian ymlaen llaw, mae hefyd yn defnyddio cyllid mewn modd sy'n creu addasrwydd hirdymor i wella bywydau pobl.

# Stori Peter



PPeter yw un o'r bobl gyntaf a gefnogwyd gan MacIntyre yn rhan o'r agenda 'Trawsnewid Gofal'. Yn y 2010au, bu i Peter droseddu. Cafodd ei ddedfrydu i gael ei gadw dan glo. Am fod ganddo anabledd dysgu, ni chafodd ei anfon i'r carchar, ond yn hytrach fe'i hanfonwyd i ysbyty diogel lle treuliodd 11 mlynedd - cyfnod o amser sy'n llawer hirach na'r ddedfryd carchar y byddai wedi'i chael.

Yn yr ysbyty diogel, penderfynodd Peter dorri cysylltiad â'i deulu gan fod cywilydd arno ac nad oedd am i'w deulu ymweld ag ef yno. Yn ystod ei arhosiad fel claf mewnol, treuliodd y rhan fwyaf o'i amser yn ei ystafell am ei fod o'r farn bod y bobl eraill ar ei ward yn ymosodol a threisgar. Dim ond yn achlysurol y byddai'n gadael ei ystafell, a hynny i wneud ychydig o goginio.





Cynlluniwyd y gwaith o symud Peter i'w gartref newydd mewn ffordd bengaead dawel dros gyfnod o sawl mis, gan sicrhau bod pethau'n cael eu symud ar gyflymder a oedd yn addas iddo. Daeth tîm newydd MacIntyre i adnabod Peter yn yr ysbyty gan dreulio diwrnod gydag ef bob wythnos a llunio darlun o'i hoffterau a'i ddiddordebau.

Ers i Peter symud i mewn i'w gartref ei hun, mae wedi:

- Ailddarganfod ei gariad at seiclo
- Dechrau tyfu llysiau yn ei ardd, gyda bwriad i gael rhandir
- Mwynhau brasgoginio gan ddefnyddio ei gynnyrch cartref
- Mynd ar deithiau i Lundain a Manceinion, ac mae'n cynllunio ymweliadau eraill
- Ailsefydlu ei berthynas â'i deulu ac mae bellach yn gweld ei chwaer yn rheolaidd - yn ddiweddar, coginiodd ginio gartref ar gyfer ei chwaer a'i gŵr
- Dechrau rhannu ei stori yn nigwyddiadau cynefino staff MacIntyre

Dywed Peter: "Symudais i mewn i'm byngalo newydd yn 2022, ac rwyf wedi bod wrth fy modd ers hynny. Gallaf fynd ar gefn beic i ardaloedd gwahanol a chael y rhyddid i goginio a phobi pa bryd bynnag y mynnaf, gan gynnwys coginio a phobi fy newis o brydau a chacennau. Rwyf mor hapus bod gennyf fy mywyd yn ôl eto."





### Staffio a Chostau MacIntyre

Staffio: dau aelod o staff yn wreiddiol, wedi lleihau bellach i un aelod, gydag angen yn unig am ddau aelod ar gyfer gweithgareddau arbennig

**Arbedion costau - 37.5% yn llai na phan oedd Peter yn yr ysbyty diogel**

# Stori Adrian



Mae Adrian yn ei bumdegau ac wedi cael ei gefnogi gan MacIntyre ers 2023. Cyn i MacIntyre ei gefnogi, cafodd Adrian ei dderbyn i'r ysbyty o'i sefydliad blaenorol oherwydd y boen yr oedd ei gilddannedd cywasgedig yn ei hachosi. Yno, cafodd ei osod ar orchymyn DNACPR. Roedd tad Adrian, sy'n gyn-gyfreithiwr, wedi gallu brwydro yn erbyn y gorchymyn.

**Yn ystod ei amser yn yr ysbyty, gwaethygodd iechyd meddwl Adrian yn gyflym gan arwain at hunan-niwed difrifol. O ganlyniad, cafodd Adrian ei anfon i ysbyty'r meddwl dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Pan ddaeth i MacIntyre, darganfuom fod y DNACPR yn dal i fod ar ei ffeil ac rydym wedi gweithio gyda'i feddyg teulu i dynnu'r gorchymyn oddi arno. Mae gan Adrian amhariad ar y golwg a achoswyd gan hunan-niwed; mae wedi cael diagnosis o anabledd dysgu ac mae'n awtistig.**

## Ei fywyd ers symud i mewn



Mae Adrian yn ei bumdegau ac wedi cael ei gefnogi gan MacIntyre ers 2023. Cyn i MacIntyre ei gefnogi, cafodd Adrian ei dderbyn i'r ysbyty o'i sefydliad blaenorol oherwydd y boen yr oedd ei gilddannedd cywasgedig yn ei hachosi. Yno, cafodd ei osod ar orchymyn DNACPR. Roedd tad Adrian, sy'n gyn-gyfreithiwr, wedi gallu brwydro yn erbyn y gorchymyn.

Mae rhieni Adrian hefyd wedi gweld y newid ynddo, gan nodi bod 'Y staff yn anhygoel ac yn fawr eu gofal am Adrian, ni allwn wir fod wedi gofyn am well.' Ac yntau heb fod gartref ers 21 mlynedd, mae Adrian 'nawr yn ymweld unwaith y mis i dreulio amser gyda'i rieni.



## Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Yn ddiweddar, ymunodd Adrian a'i dîm cymorth â Thaith Gerdded Iechyd Meddwl. Roedd mam Adrian wedi esbonio cymaint yr oedd ef yn mwynhau cerdded, a'i fod wedi treulio ei arddegau hwyr a'i ugeiniau yn cerdded o amgylch Ardal y Llynnoedd ar wyliau. Mae tîm Adrian bellach yn ymchwilio i deithiau cerdded mwy hygyrch iddo gael eu mwynhau.

Mae gan MacIntyre berthynas gadarnhaol iawn â'r feddygfa deulu leol. Mae'r meddyg teulu a'r clinigydd yn adolygu meddyginiaeth Adrian â'r bwriad o leihau ei boen a'i feddyginiaeth wrthseicotig dros y 12 mis nesaf.





## Staffio a Chostau MacIntyre

Staffio: Dau aelod o staff, yn ogystal â staff nos effro. Bwriedir lleihau hyn i un aelod o staff yn ystod y dydd, gyda dau aelod ar gyfer gweithgareddau

Arbedion costau - 70% yn llai na phan oedd yn yr ysbyty

# Stori Jake



Mae Jake yn ddyn 35 mlwydd oed sydd wedi treulio 20 mlynedd o'i fywyd yn yr ysbyty, gyda llawer o hynny yn ysbyty'r meddwl dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Bu i MacIntyre gwrdd â Jake gyntaf yn 2018, pan gafodd ei drosglwyddo i ysbyty lle roedd yn angenrheidiol defnyddio arferion cyfyngol am 22-23 awr y dydd er mwyn atal hunan-niwed.

Dyfarnwyd y contract i gefnogi Jake ddechrau 2021, a symudodd i'w gartref newydd yn 2024.





Bu i Arweinydd MacIntyre dros Gefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol gwrdd â Jake ac arwain ei asesiad cychwynnol. Aseswyd bod angen cymorth 4:1 ar Jake ar ôl iddo symud, sy'n golygu bod angen tîm o 30 aelod o staff i sicrhau cymorth 24/7. Mae Jake hefyd yn cael 30 awr o gymorth yr wythnos gan dîm Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol MacIntyre.

Wrth baratoi ar gyfer Jake yn symud, aeth y tîm staff ati i ddod i adnabod yr ardal. Gan ddefnyddio proses o'r enw 'mapio cymunedol', bu iddynt archwilio'r holl siopau, parciau a chyfleusterau lleol eraill, gan gynnwys manylion am amseroedd agor. Wrth weithio gyda staff yr ysbyty, lluniodd y tîm gynllun dyddiol ac wythnosol a efelychai arferion Jake yn yr ysbyty, gan gynnwys yr elfennau hydro a synhwyraidd, er mwyn 'clustogi'r' broses o symud Jake.

Yn y ddau fis byr ers iddo symud i'w gartref newydd mewn ffordd bengaead dawel, fach, mae Jake wedi:

- dod i adnabod ei gymdogion, gan gynnwys pan aeth i chwarae losin neu lanast yn ystod Calan Gaeaf
- bodloni ei hoffter o geir model, a phrynu rhai i'w mwynhau gartref
- dathlu ei ben-blwydd yn ei gartref ei hun - y tro cyntaf yn ei fywyd fel oedolyn
- cael cymorth i sefydlu galwadau fideo wythnosol gyda'i fam

### Cynlluniau ar gyfer y Dyfodo

Ac yntau wedi byw mewn ysbyty am 20 mlynedd, mae'n bwysig cynnal lefel o arfer i Jake a pheidio â newid dim yn rhy gyflym; mae'r tîm a'r rheolwr lleol yn gweithio'n agos gyda thîm Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol MacIntyre i sicrhau parhad a strwythur i Jake, gan gyflwyno newidiadau i'w arferion yn araf wrth iddo deimlo'n fwy cyfforddus.





### Staffio a Chostau MacIntyre

Staffio: Pedwar aelod o staff gyda chymorth nos effro a chymorth PBS am 30 awr yr wythnos

**Arbedion costau - 60.4% yn llai na phan oedd Jake yn yr ysbyty**

# Gwneud Gwahaniaeth



## Stori Adrian

Nid yw symud i gymdogaeth newydd byth yn hawdd, fel yn achos Adrian a symudodd yn ddiweddar i fyngalo newydd ym Manceinion Fwyaf. Mae'n bwysig i Adrian gael strwythur i'w fore.

Un o'i arferion yw mynd ar daith mewn car a chael ei yrru i gyfleuster gyrru trwodd ar gyfer coffi neu siocled poeth, er nad yw hyn yn bosibl bob amser os nad oes aelod o staff a all yrru yn gweithio. Felly, daeth aelodau o staff ynghyd i ddod o hyd i ffordd o wneud boreau Adrian yn ddiddorol p'un a fyddai'n cael ei yrru neu beidio.

Ar y diwrnodau hynny, mae Adrian yn mynd allan am dro yn ei gadair olwyn o amgylch y strydoedd lleol gyda'i dîm gan sgwrsio, ymweld â'r siop leol, a dweud helô wrth gymdogion. Yna pan fyddant yn dychwelyd adref, maent yn "gyrru" ar hyd y llwybr i ffenestr y gegin fel pe bai'n gyfleuster gyrru trwodd.

Mae un aelod o'r tîm, Noheem, yn cnocio ar y ffenestr, a thu mewn, mae ei gyd-weithiwr Noemi yn gwneud llais "gyrru trwodd" er mwyn i Adrian allu archebu. Caiff Adrian ei ddiod boeth a'i gacen trwy ffenestr y gegin ac, os yw'n ddiwrnod braf, mae'n mwynhau ei wledd foreol yn ei ardd. Mae'r trefniant hwn yn hollol wych iddo - mae'n ei gweld yn ddoniol iawn cael ei drin fel cwsmer gyrru trwodd yn ei gartref ei hun, ac mae wir yn mwynhau'r hwyl i gyd.

Mae wedi bod yn wych i'r staff hefyd. Maent yn falch o sut y bu iddynt feddwl am yr hyn sy'n bwysig i Adrian, a defnyddio eu dychymyg i droi her logistaidd yn rhywbeth creadigol a hwyliog. Mae'n creu effaith donnog yn lleol hefyd. Cafodd un o gymdogion Adrian weld y 'cyfleuster gyrru trwodd', roedd ganddo ddiddordeb a daeth draw i ddarganfod mwy. Mae'n dod i adnabod Adrian ac yn mwynhau'r cysylltiad. Mae ymweliadau Adrian â'r siop leol hefyd wedi newid y ffordd y mae'r staff yno yn gweld pobl ag anableddau dysgu. Maent wedi sylweddoli bod ar bob un ohonom eisiau'r un pethau - cwmnïaeth, cysylltiad ac, wrth gwrs, hwyl!

## Stori Peter - yn ei eiriau ei hun

Fy enw yw Peter, rwy'n 65 mlwydd oed. Ddiwedd 2022, symudais i Bury gyda MacIntyre.

Beth amser yn ôl, roeddwn yn byw'n annibynnol yr ochr arall i Fanceinion Fwyaf yn fy fflat bach. Yno, roeddwn yn arfer mynd ar gefn fy meic yn aml. Roeddwn yn arfer glanhau a choginio ar ben fy hun yn fy fflat ac roedd bywyd yn dda. Fodd bynnag, cefais fy rhoi dan gadwad ac mewn ysbyty diogelwch canolig yn Whalley.

Treuliais 11 mlynedd o'm bywyd yn Whalley gyda chymaint o gyfyngiadau. Roedd yn golygu nad oeddwn yn gallu mynd ar gefn beic pan oeddwn yn dymuno; nid oeddwn yn gallu coginio bob dydd. Yn lle hynny, roeddwn yn brasgoginio bob pythefnos ac yn rhewi fy mwyd. Dyna'r cwbl yr oeddwn wedi'i wneud oedd hotpot a bûm yn byw ar hwnnw am 11 mlynedd. Collais gysylltiad corfforol â'm teulu am yr 11 mlynedd. Ryw adeg, meddyliais fod fy mywyd ar ben ac na fyddwn yn gadael yr ysbyty byth eto.

Yn yr ysbyty, treuliais y rhan fwyaf o'm hamser yn fy ystafell wely. Yn anaml y byddwn yn dod allan i eistedd yn yr ardaloedd cymunedol neu'n rhyngweithio â'r cleifion eraill. Yr unig adeg yr oeddwn yn mynd allan oedd bob pythefnos i siopa am fwyd. Yr ychydig amser yr oeddwn ar gefn fy meic oedd o amgylch tir yr ysbyty, pan allai staff neilltuo rhai munudau i mi.

> Roedd fy mywyd yn ddiflas ac yn ddiobaith - hyd nes y daeth MacIntyre.



Symudais o'r ysbyty i'm byngalo newydd ac rwyf wedi bod wrth fy modd ers hynny. Bellach, gallaf fynd ar gefn beic i ardaloedd gwahanol gyda staff. Mae gennyf y rhyddid i goginio a phobi pa bryd bynnag y mynnaf, gan gynnwys coginio a phobi fy newis o brydau a chacennau. Mae gennyf lawer o ofod i arddio, ac rwy'n mwynhau tacluso y tu mewn i'm byngalo ac o'i amgylch.

Rwyf wrth fy modd yn dangos fy myngalo i ymwelwyr ac rwyf bob amser yn mynd â nhw ar daith o gwmpas yr eiddo.

Rwyf wedi ailsefydlu cysylltiad â'm teulu, ac mae fy chwaer wedi ymweld â mi am y tro cyntaf ers 11 mlynedd. Roeddwn wedi paratoi cinio iddi hi a'i gŵr. Mae wedi rhoi sicrwydd i mi y byddai'n galw draw'n amlach.

Rwyf mor hapus bod gennyf fy mywyd yn ôl eto. Gallaf fynd i leoedd a marchnadoedd gwahanol i siopa. Mae'n anhygoel cymaint sydd wedi newid ac rwy'n hynod falch fy mod allan gyda chefnogaeth MacIntyre.

# Y Gweithlu




Yn rhan o'n 'Strategaeth Gweithlu 2024 a Thu Hwnt', bu i ni sefydlu map clir yn nodi sut y bwriadwn ddenu'r aelodau gorau o staff i MacIntyre a'u cadw. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y caiff pob unigolyn brofiad recriwtio gwych, ac y caiff ei groesawu a'i werthfawrogi o'i ddiwrnod cyntaf, trwy gydol ei gyfnod prawf a thu hwnt.

Pan fyddant yn ymuno â MacIntyre, caiff gweithwyr eu cefnogi trwy gydol eu cyfnod cynefino a'u cyflogaeth â chymorth eu rheolwr llinell a chyda Phortffolio Datblygiad Personol; sesiwn gynefino a hyfforddiant parhaus yn gysylltiedig ag anghenion y bobl sy'n tynnu ar gymorth; cyfarfodydd Cymorth a Goruchwyliaeth rheolaidd, a Gwerthusiad blynyddol; cyfarfodydd tîm; hyfforddiant a mentora.

Bydd hyfforddiant penodol ac arweinyddiaeth ymarferion yn cael eu cynorthwyo gan dîm Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol MacIntyre, sy'n ymroddedig i weithio gyda thimau i sefydlu cymorth pwrpasol yn ddibynnol ar anghenion pob unigolyn.

Mae cymorth a rhwydweithiau eraill i weithwyr ar draws MacIntyre yn cynnwys:

- Cyngor Staff gyda chynrychiolwyr ledled y sefydliad
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- Dolenni a chynnwys pwrpasol ar y Fewnrwyd Llesiant
- Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- Llwybr Gyrfa MacIntyre sy'n cynnwys cyfleoedd i gyd-weithwyr gael blas ar rolau eraill, cysgodi cyd-weithwyr, a bod yn rhan o grwpiau rhwydwaith a chynlluniau datblygu gyrfa MacIntyre
- Galwadau pythefnosol Cysylltu MacIntyre i rannu gwybodaeth ac arferion gorau
- Grŵp Cynghori ar Amrywiaeth gydag is-grwpiau ar gyfer Ethnigrwydd, Niwroamrywiaeth a Rhywioldeb
- Grwpiau Diddordeb Arbennig mewn perthynas ag Awtistiaeth, Cyfleoedd Gwaith a Dementia
- Digwyddiadau Penodol - diwylliannol, addysgiadol, a rhai wedi'u harwain gan ymarfer
- Cydnabyddiaeth a Gwerth Staff - Gwobrau (mewnol ac allanol), Cynadleddau, Gweithiwr y Mis, Gwobrau Staff blynyddol




**Cod Ymddygiad Staff**

Mae'n bwysig bod pob un ohonom yn adlewyrchu proffesiynoldeb a'n diwylliant yn ein hymddangosiad. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo MacIntyre mewn modd cadarnhaol, ac yn rhoi hyder i bobl sy'n tynnu ar ein cymorth, yn ogystal ag i bawb arall sydd ynghlwm wrth MacIntyre.

# Stori Godwin




Fy enw yw Godwin ac rwy'n Uwch-weithiwr Cymorth ym Manceinion Fwyaf.
Rwyf wedi gweithio gyda MacIntyre ddwywaith! Fy nhro cyntaf oedd rhwng 2010 a 2015, pan oeddwn yn Weithiwr Cymorth Nos Effro. Roeddwn yn mwynhau'r swydd, ond wrth i amser fynd rhagddo, nid oedd angen staff ar y shifft nos bellach ac, yn anffodus, cafodd fy swydd ei dileu. Ar ôl bod mewn swydd arall am gwpl o flynyddoedd, digwydd bod, gwelais hysbyseb am swydd arall gyda MacIntyre yn 2017. Yn y gorffennol, bûm yn gweithio ochr yn ochr â Marlon a oedd yn dal i fod gyda'r cwmni. Anogodd fi i wneud cais ac roeddwn yn llwyddiannus. Felly, rwyf wedi bod gyda MacIntyre am gyfanswm o tua 12 mlynedd erbyn hyn.

## Cefnogi Peter

Fy mhrif swydd yw cefnogi Peter, ac rwy'n gweld hyn yn arbennig o werth chweil. Mae Peter yn ddyn ag anableddau dysgu a gafodd ei gadw mewn ysbyty diogel am 11 mlynedd. A allwch hyd yn oed ddychmygu sut beth yw hynny? Hoffwn pe gallai cymdeithas fod yn fwy tosturiol ac yn fwy pwyllog ei beirniadaeth.

Gweithiais gydag Peter am sawl mis, yn ystod y cyfnod pontio o'r ysbyty i'w gartref ei hun. Cefais wybod am yr hyn y mae'n ei fwynhau (beicio mynydd a garddio) a dechreuais feithrin perthynas ag ef, gan gynnwys y tîm a ddaeth ynghyd i'w gefnogi. Bellach, mae gan Peter "fywyd gogoneddus o gyffredin", a'm gwobr fwyaf yw ei wên ar ddiwedd y dydd.

## Gwlad newydd a newid gyrfa

Yn ôl yn fy ngwlad enedigol, Zimbabwe, bûm yn ymwneud â choedwigaeth. Deuthum i'r DU yn 2002. Dechreuais yn Llundain a gweithio mewn amrywiaeth o swyddi, gan gynnwys warysu. Ni feddyliais erioed am weithio ym maes gofal cymdeithasol. Un diwrnod, dywedodd ffrind ei bod yn hawdd siarad â mi, ac awgrymodd fod gennyf y bersonoliaeth addas ar gyfer cefnogi eraill. Bu i hynny wneud i mi feddwl, a chychwynnais fy swydd gofal cymdeithasol gyntaf mewn cartref nyrsio lleol. Ar ôl ychydig, roeddwn wedi symud i Fanceinion, dod o hyd i MacIntyre, a hanes yw'r gweddill.

## Mae'r cyfan yn ymwneud â'r unigolyn

Pe bai gennyf un darn o gyngor i'w roi i bobl sy'n dechrau ym maes gofal cymdeithasol; er bod yna lawer o reoliadau sy'n gwbl briodol, mae'n hanfodol gweld yr unigolyn, ac nid y gwaith papur.

## Mae gwyliau'n bwysig

Y tu allan i'r gwaith, rwy'n mwynhau treulio amser gyda fy nheulu, ac rydym wrth ein bodd yn mynd ar wyliau i'r Alban. Mae yna rywbeth ynglŷn â'r tir coediog prydferth hwnnw sy'n fy atgoffa o le y dechreuais, yn ôl yn Zimbabwe.

## Gair gan Reolwr Ardal Godwin

Eleni, cyrhaeddodd Godwin rownd derfynol y Gwobrau Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth, ac ennill y Wobr Staff ym MacIntyre am Weithiwr Rheng Flaen Rhagorol. Roedd wedi gwirioni ei fod wedi ennill. Ac yntau mor ddiymhongar, dywedodd, "Nid oeddwn yn gwybod fy mod yn gwneud unrhyw beth arbennig, dim ond gwneud fy swydd."

# Ein Hyfforddiant



Mae MacIntyre yn parhau i fuddsoddi yng ngwybodaeth, sgiliau a galluoedd ein gweithlu. Mae gan bob unigolyn fynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu. Mae rhai yn ofynnol gan ein rheoleiddwyr, a nifer yn ganlyniadau i'n dyheadau i'r holl staff ddatblygu a chyflawni llwyddiant ym mhopeth y maent yn ei wneud. Mae ein tîm Dysgu a Datblygu bach yn cefnogi ein diwylliant dysgu agored ac yn canolbwyntio ar y gwaith o gynllunio a darparu ein hyfforddiant gorfodol a'r cymwysterau ffurfiol sy'n ofynnol ar gyfer rhai swyddi, ynghyd â chymwysterau sy'n gysylltiedig â dyheadau personol unigolion a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

### Cynefino

Cynhelir ein hyfforddiant cynefino wyneb yn wyneb yn lleol ar draws y sefydliad. Mae pob sesiwn yn cynnwys rhywun sy'n tynnu ar ein cymorth o'r ardal honno. Pwrpas yr hyfforddiant yw rhannu ac ymgorffori ein gwerthoedd a'r ymddygiadau a ddisgwyliwn gan ein staff. Mae popeth yn llifo o'n DNA MacIntyre, gan gynnwys y Cod Ymddygiad Staff a'r Pum Prawf ar gyfer Bywydau Gogoneddus o Gyffredin.

### Hyfforddiant a Chymwysterau

Darperir Hyfforddiant a Chymwysterau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Caiff System Rheoli Dysgu MacIntyre ei rheoli'n fewnol a'i haddasu i sicrhau bod y gofynion o ran cydymffurfedd, ynghyd ag anghenion y bobl sy'n tynnu ar gymorth, yn cael eu bodloni ac y rhagorir arnynt, a hynny trwy ein cymorth a'r hyfforddiant a ddarparwn.

Mae ein hyfforddiant wedi'i ardystio gan BILD ACT ac mae'n bodloni safonau fframwaith cymhwysedd PBS, Sgiliau Gofal a Rhwydwaith Lleihau Arferion Cyfyngol. Mae'r hyfforddiant yn fodiwlaidd ac yn cynnwys yr egwyddorion a'r ymarferion i ddatblygu amgylcheddau galluogi, darparu cymorth gweithredol, sicrhau defnydd o ddulliau atal cynnar, a sut i ddiogelu pobl yn y modd lleiaf cyfyngol. Dim ond ar ôl i ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant gael ei gwblhau y cytunir ar y gofyniad am hyfforddiant ymyriadau corfforol, a hynny o fewn cynllun lleihau arferion cyfyngol.

### Y Rhaglen Arweinyddiaeth

Darperir Rhaglen Arweinyddiaeth MacIntyre dros gyfnod o chwe mis. Mae ein DNA Arweinyddiaeth yn egluro sut olwg a ddylai fod ar arweinyddiaeth ym MacIntyre. Mae'n nodi'r ymddygiadau yr ydym yn disgwyl eu gweld gan bob un o'n harweinyddion. Mae wedi'i gwreiddio yn ein DNA - y pethau sydd bwysicaf i ni.

### Mae pynciau penodol y cwrs yn cynnwys:

- Meddyginiaethau Achrededig
- Iechyd Meddwl Fforensig
- Cofnodi Iechyd
- Cynefino
- Cyflwyniad i Ymddygiad Troseddol a Chymorth Fforensig
- Arwain i Ysbrydoli
- Gwaith Cyswllt
- Hyfforddiant Gorfodol Oliver McGowan Haen 2
- Ymwybyddiaeth o PBS
- PBS - Deall Ymddygiad
- PBS - Y Camau Cyntaf
- PBS - Uwch
- Ymyriadau Corfforol Cyfyngol

MacIntyre

Providing support...your way

Swyddfa Ganolog MacIntyre
Seebeck House, 1 Seebeck Place, Knowlhill
Milton Keynes
Swydd Buckingham
MK5 8FR

01908 230100
hello@macintyrecharity.org
www.macintyrecharity.org
Cyfryngau Cymdeithasol @MeetMacIntyre

Elusen Gofrestredig 250840
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant 894054
© MacIntyre 2026